# Arweiniad i dempledi cyllidebol y prosiect

Mae templed cyllideb y prosiect wedi'i strwythuro i'ch helpu i gyflwyno eich gwybodaeth ariannol yn glir. Mae hefyd yn ein galluogi i gymharu cyllidebau prosiectau o wahanol geisiadau yn gyson.

Mae'n ddogfen Microsoft Excel ond gellir ei hagor a'i golygu gan ddefnyddio gwahanol fathau o feddalwedd daenlen. Ond dim ond yn Excel y byddwn ni'n ei darllen a gall ffyrdd eraill effeithio ar sut mae'r ddogfen yn gweithio, yn enwedig y fformiwlâu a'r cyfyngiadau mewnol a osodwyd. Gwnewch yn siŵr bod y cyfansymiau a'r crynodebau yn cytuno â'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl.

Mae nodiadau yn y templed a fydd yn eich helpu i'w llenwi. Sylwch hefyd fod cyfyngiadau ar rai eitemau gwariant sydd yn y templed.

Mae pedwar tab/tudalen yn y templed:

- Tab 1 - Crynodeb – dyma drosolwg o'ch incwm a'ch gwariant cyffredinol. Gwiriwch fod eich cyllideb yn gytbwys
- Tab 2 - Gwariant – nodwch pa gostau y byddwch yn eu talu i gyflawni eich prosiect
- Tab 3 - Incwm – nodwch pa arian y byddwch yn ei roi at eich prosiect. Gall hyn fod mewn arian parod neu mewn nwyddau
- Tab 4 - Costau Hygyrchedd Personol – mae'r rhain i chi neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu/cyflawni eich prosiect (nid cyfranogwyr/cynulleidfaoedd y prosiect). Gweler ein tudalen Hygyrchedd am ragor o fanylion

Bydd y templed yn cyfrifo is-gyfansymiau yn awtomatig ichi. Dylech nodi eich ffigyrau yn bunnoedd llawn.

Mae angen i bob cyfanswm gael esboniad clir o'r costau. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r costau. Os na allwn ddeall y gost neu sut y caiff ei chyfrifo, gallai hyn effeithio ar ein hasesiad o'ch cais.

Gallwch gynnwys unrhyw esboniad ychwanegol yn y llinellau Nodiadau Ychwanegol.

Wrth wneud cais am grant, defnyddiwch golofnau A-J yn unig (y rhai glas).

Dylech lenwi colofnau L-P (y rhai lliw eirin) dim ond pan fyddwch chi'n cyflwyno eich adroddiad diweddu.

Mae rhai celloedd wedi'u diogelu gan gyfrinair sy'n golygu eu bod wedi'u cloi. Mae hyn yn fwriadol ac os nad ydych chi'n defnyddio Excel, gallai hyn effeithio ar sut mae templed y gyllideb yn gweithio.

# Llenwi cyllideb y prosiect

## Tab 1: Crynodeb

Y cyfan sydd angen ichi ei lenwi ar y tab yma yw enw'r ymgeisydd a theitl y prosiect.

Peidiwch ag ychwanegu unrhyw ffigyrau i'r tudalen yma. Bydd y ffigyrau'n diweddaru'n awtomatig pan fyddwch chi'n llenwi'r tabiau eraill.

Dylech wirio'r tab yma eto pan fyddwch chi wedi llenwi'r tabiau eraill. Cyn ichi ei gyflwyno, gwnewch yn siŵr mai'r balans (llinell 24) yw £0.

Os yw'r cydbwysedd yn negyddol, bydd y rhif yma yn goch.

Mae'r tab yma hefyd yn dangos canran yr arian a ddaw gennym ni.

## Tab 2: Gwariant

Ar y tab yma rhestrwch yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt, dan y penawdau priodol.

Nid ydym yn disgwyl ichi gael costau yn holl benawdau'r tabl o reidrwydd. Ond rydym am ichi nodi beth fydd defnydd yr arian mor glir â phosibl. Ar gyfer pob eitem o wariant, mae angen inni ddeall sut mae'r gost yn cael ei chyfrifo. Felly, darparwch ddadansoddiad manwl. Gallwch ychwanegu nodiadau esboniadol pellach yn is i lawr y tudalen os oes angen.

Cofiwch y gallwn ofyn ar unrhyw adeg am dystiolaeth o unrhyw gostau a gyllidebwyd neu gostau a gafwyd yn ystod y prosiect. Gall methu â darparu tystiolaeth ddigonol arwain atoch yn cael llai o arian am yr elfen yna, neu os rhoddwn grant, lleihau'r grant neu dynnu'r holl grant yn ôl.

### Dadansoddi eich cyllideb

Gofynnwn ichi ddadansoddi cyllideb eich prosiect yn wahanol benawdau fel y gallwn ei asesu'n gywir. Dyma'n penawdau:

**Ffioedd artistiaid** – yma rhestrwch ffioedd a chyflogau pob artist a gweithiwr creadigol eraill a fydd yn gweithio ar eich prosiect, er enghraifft, actorion, cerddorion, cyfansoddwyr, rheolwyr llwyfan, coreograffwyr, cynhyrchwyr, curaduron, hyfforddwyr ac arweinwyr gweithdai. Os ymgeisydd unigol ydych chi, cofiwch gynnwys eich ffi eich hun.

Rydym am sicrhau bod pob gweithiwr creadigol yn cael ei dalu'n deg ac yn briodol i gydnabod ei statws, ei sgiliau a'i brofiad proffesiynol. Rhaid ichi dalu o leiaf gyfraddau cyflog safonol y diwydiant. Gweler ein tudalen Ffioedd Artist am isafswm ffioedd.

Mae angen inni weld dadansoddiad manwl o sut rydych wedi cyfrifo'r cyfanswm, yn enwedig symiau mawr, er enghraifft:

- 3 actor @ £550 yr wythnos am 10 wythnos

- 1 arweinydd gweithdy @ £400 yr wythnos am 10 wythnos

Rhaid i staff y prosiect (gan gynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol) sy'n cael cyflog o ragor na £5,000 gael eu recriwtio drwy ddewis yn agored oni bai bod rheswm penodol dros wneud fel arall a rhaid egluro'r rheswm yn eich cais.

**Costau gweithgarwch artistig** - yma rhestrwch gostau fel lleoedd ymarfer, amser stiwdio, digwyddiadau, cynyrchiadau ac unrhyw ddeunyddiau y gallai fod eu hangen arnoch. Cynhwyswch yr holl gostau sy'n cefnogi'n uniongyrchol eich gweithgarwch artistig, er enghraifft, teithio, trafnidiaeth, llety a chynhaliaeth ddyddiol (a elwir weithiau per diems). Ond ni allwn dalu am ddefnyddio eich lle eich hun, er enghraifft ar gyfer ymarferion.

Mae angen inni weld dadansoddiad manwl o sut rydych wedi cyfrifo'r cyfanswm, er enghraifft:

- Cynhaliaeth ar gyfer 4 aelod o staff @ £50 y dydd x 20 diwrnod
- Llogi fan @ £60 y dydd x 20 diwrnod
- Llogi gofod ymarfer yn Theatr ABC, 10 sesiwn @ £150 y sesiwn

**Cyrraedd eich cynulleidfa/cyfranogwyr** – yma dadansoddwch eich eitemau fel costau marchnata a hyrwyddo sy'n cefnogi eich gweithgarwch artistig yn uniongyrchol ac yn eich galluogi i gyrraedd a denu cynulleidfa neu gyfranogwyr. Er enghraifft: ffioedd marchnata llawrydd, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, dadansoddi data, rhestrau postio, cyfieithu, costau dylunio ac argraffu, cyfryngau cymdeithasol a chostau e-bost.

**Costau gwneud eich gweithgarwch yn fwy hygyrch i'ch cynulleidfaoedd a'ch cyfranogwyr** - rydym yn disgwyl ichi wneud eich gweithgarwch yn hygyrch felly yma rhestrwch gostau fel perfformiadau a ddisgrifir â sain, perfformiadau ag Arwyddeg, perfformiadau ag isdeitlau/capsiynau, arddangosfeydd cyffwrdd/trin pethau'n uniongyrchol, cynlluniau oriel Braille a/neu deithiau a ddisgrifir â sain, teithiau cyffwrdd, arwyddion cyffwrdd/paneli dehongli.

**Costau monitro a gwerthuso** – yma rhestrwch gostau sy'n gysylltiedig â monitro eich prosiect ac unrhyw gostau gwerthuso. Er enghraifft: arolygon cyfranogwyr, holiaduron cynulleidfa ar ôl y digwyddiad, tystebau, ffurflenni adborth neu ymatebion fideo. Nodwch ffioedd ar gyfer gwerthuswyr allanol hefyd.

**Prynu offer cyfalaf** – gallwch ddefnyddio hyd at £2,000 o swm eich grant fel cyfraniad at elfen gyfalaf sy'n benodol i brosiect fel darn o offer sydd ei angen arnoch er mwyn ichi gyflawni'r prosiect. Bydd angen ichi nodi sut y byddwch yn defnyddio'r offer yma yn ystod ac ar ôl eich prosiect.

**Costau gweinyddu a chostau gorbenion penodol ar gyfer prosiectau** – gallwn ystyried talu am gostau rhedeg penodol ar gyfer prosiectau at weinyddu a gorbenion. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn hyd at uchafswm o 20% o gyfanswm cost gymwys y prosiect.

Byddwn ddim ond yn ystyried ariannu costau rhedeg prosiectau nad yw arian arall yn talu amdanynt ac sy'n amlwg yn ychwanegol at eich costau o ddydd i ddydd. Peidiwch â

chynnwys canran o'ch costau rhedeg cyffredinol yn unig. Rhaid ichi ddangos inni y byddwch yn talu'r costau am gyfnod cyfyngedig o amser a bod y costau'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch prosiect. Byddwn yn ystyried cyfrannu at gostau gweinyddu, staff ychwanegol, ffôn, postio ac yswiriant penodol i'r prosiect.

Nid yw eich staff sydd â chontract cyflogaeth ac sy'n gweithio eu horiau arferol yn gymwys fel cost gwariant, dim ond cost ychwanegol sy'n deillio o'r amser a weithir yn uniongyrchol ar y prosiect dros yr oriau arferol a ganiateir.

**Gwariant arall** – yma rhestrwch gostau prosiect eraill nad ydynt yn gweddu dan y penawdau eraill. Er enghraifft:

**Gwefannau -** byddwn yn ystyried talu hyd at £1,000 at gostau datblygu a chynnal gwefan, os caiff ei defnyddio'n bennaf i farchnata a hyrwyddo eich prosiect. Os yw datblygu gwefan yn ganolog i weledigaeth greadigol eich prosiect a byddwch yn ei defnyddio fel llwyfan ar gyfer eich ymarfer artistig, efallai y byddwn yn ystyried rhoi rhagor na £1,000.

Bydd angen ichi ddangos inni sut y byddwch yn defnyddio'r wefan yn ystod ac ar ôl eich prosiect.

**Arian wrth gefn** - arian sydd wedi'i neilltuo i dalu costau annisgwyl. Rydym yn caniatáu uchafswm o 5% o gyfanswm costau eich prosiect fel arian wrth gefn. Mae'n arian rhag ofn ac os na cheir costau ychwanegol yn ystod y prosiect, gallai hyn arwain at warged ar ddiwedd y prosiect. Os bydd hyn yn digwydd, gallwn adennill canran ein harian o unrhyw warged os nad oedd angen y rhan yna o'r arian.

## Tab 3 Incwm

Yn y tab yma rhestrwch yr holl incwm rydych yn rhagweld ei dderbyn at eich prosiect dan y penawdau priodol.

Cynigir ein harian fel canran o gyfanswm cost gymwys y prosiect. Rhaid ichi ddod o hyd i'r gweddill sydd arnoch ei angen o'ch arian eich hun neu arian arall – sef arian partneriaeth neu gyfatebol. Efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth fod gennych yr arian yma.

Dylech ymchwilio i ffynonellau eraill o arian cyn gwneud cais am grant. Mae arian cyfatebol yn helpu i ddangos cryfder a photensial eich syniad prosiect ac mae'n dangos inni fod ymrwymiad i'ch prosiect. Mae hefyd yn dangos inni fod rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod eich prosiect yn diwallu angen, y bydd yn rhoi budd i'r cyhoedd a bod pobl eraill yn barod i fuddsoddi arian ynddo.

Ar gyfer cynlluniau lle rydym yn ariannu hyd at 90%, bydd angen i o leiaf 10% o incwm eich prosiect ddod o ffynhonnell nad yw'n rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru. Ar gyfer cynlluniau eraill, gall y ganran hon fod yn uwch, felly gwiriwch y canllawiau ariannu a'r templedi cyllideb ar gyfer pob cynllun i weld faint o incwm eich prosiect fydd angen dod o ffynhonnell arall. Cofiwch mai isafswm canran sydd yma ond byddwn yn disgwyl ichi gael

y cyfraniadau mwyaf posibl at eich prosiect o'ch arian eich hun, o incwm a enillir ac o bartneriaid ariannu eraill.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n cael eu hariannu ar y cyd, yn hytrach na'r rhai sy'n dibynnu'n llwyr neu'n unig arnom ni. Po fwyaf o arian partneriaeth y gallwch ei gael, cryfaf y bydd eich prosiect. Mae hefyd yn ein galluogi i ledaenu ein harian yn ehangach, gan ariannu rhagor o brosiectau. Efallai y byddwn yn gwrthod eich cais os nad oes tystiolaeth o unrhyw arian cyfatebol, neu os nad yw'r gyllideb yn dangos gwerth am arian.

Rhai enghreifftiau o ffynonellau o arian partneriaeth:

- Arian o'ch sefydliad a ddaeth o ffynhonnell nad yw'n Loteri na Chyngor Celfyddydau Cymru
- Cyfraniadau ariannol gan bartneriaid eraill yn y prosiect
- Incwm a enillir (fel tocynnau, gwerthiant arddangosfa neu incwm Noson Allan)
- Grantiau gan sefydliadau eraill (rhaid i o leiaf 10% fod o ffynhonnell nad yw'n Loteri)

Ni allwn dderbyn credydau rhyddhad treth theatr fel math o incwm.

## Dadansoddi eich cyllideb

Gofynnwn ichi ddadansoddi incwm eich prosiect yn wahanol benawdau fel y gallwn ei asesu'n gywir. Dyma'r penawdau:

**Cais am grant prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru (ac eithrio costau hygyrchedd)** – yma nodwch y swm rydych chi'n ei geisio, heb gynnwys costau hygyrchedd personol. Dylai hyn fod yr un peth â'r swm a geisiwch yn eich ffurflen gais. Gwnewch yn siŵr bod y ddau ffigwr yr un peth cyn cyflwyno'r cais.

**Eich arian eich hun** – yma rhestrwch gyfraniad ariannol y byddwch chi'n ei wneud at y prosiect. Rhaid cynnal y swm yma tan ddiwedd y prosiect ac ni allwch ei leihau.

**Eich incwm a enillir** – yma rhestrwch incwm rydych chi'n disgwyl ei ennill o weithgarwch eich prosiect, er enghraifft o werthu tocynnau, ffioedd gweithdy neu hyfforddiant neu gatalog/rhaglen. Rydym yn deall y gallai fod yn fater o ddyfalu weithiau ond dylech fod yn realistig am y swm rydych yn debygol o'i ennill. Byddem yn disgwyl gweld sut rydych wedi cyfrifo'r cyfanswm, er enghraifft:

- 5 sioe x 210 o bobl x £5 = £5,250

Os codir TAW ar eich gwerthiant tocynnau neu'ch pris mynediad, ni ddylech ei chynnwys yn eich incwm a enillir. Ni allwn ariannu prosiectau sydd eisoes wedi dechrau, felly ni allwch roi tocynnau ar werth cyn ichi dderbyn ein cynnig grant. Byddai hyn yn gwneud eich cais yn anghymwys.

**Arian arall** - yma rhestrwch arian arall megis unrhyw grantiau/rhoddion/arian Awdurdod Lleol y gallech fod yn ei dderbyn ar gyfer y prosiect.

Nodwch enw'r arianwyr, y swm maent yn ei gyfrannu ac a yw'r arian wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig (mae yma yn opsiwn Ydy/Nac ydy). Os ydych chi'n aros i glywed, rhowch wybod inni pa bryd y byddwch chi'n disgwyl cael ateb.

Os yw eich cynllun o ddewis yn caniatáu dogfennau ategol, efallai y byddwch am gynnwys cadarnhad o'ch arian arall fel un ohonynt. Efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth o arian arall cyn rhoi grant neu ryddhau unrhyw arian.

**Cymorth mewn nwyddau** – yma rhestrwch gyfraniadau at eich prosiect nad ydynt yn arian, fel cynnig defnydd o le neu offer y byddai fel arall yn rhaid talu amdano.

Amcangyfrifwch gost neu werth unrhyw eitemau neu wasanaethau a roddir ichi gan sefydliadau/unigolion eraill y byddai'n rhaid ichi dalu amdanynt fel arall. Er mwyn rhoi gwerth arnynt, cyfrifwch beth fyddai wedi costio pe na baech wedi cael yr eitem neu'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Rhestrwch bob darparwr o gymorth mewn nwyddau, gwerth yr hyn y mae'n ei roi ac a yw wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig (mae yma yn opsiwn Ydy/Nac ydy). Os yw'ch cynllun o ddewis yn caniatáu dogfennau ategol, efallai y byddwch am uwchlwytho llythyrau/e-byst sy'n cadarnhau eich cefnogaeth mewn nwyddau. Os na chaniateir dogfennau ategol, gallem ofyn am dystiolaeth o'ch cefnogaeth mewn nwyddau yn nes ymlaen.

Ni all cymorth mewn nwyddau ddod o'ch adnoddau eich hun, er enghraifft cost llogi eich neuadd neu gyflogau eich staff sydd â chontract cyflogaeth.

Rydym yn caniatáu costau ychwanegol fel cymorth mewn nwyddau, er enghraifft unrhyw oriau ychwanegol a weithir ar y prosiect.

Rydym yn caniatáu gostyngiadau cyflenwyr fel cefnogaeth mewn nwyddau. Ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar gyfradd is, cynhwyswch y swm y byddwch yn ei dalu yn rhan wariant y gyllideb a swm y gostyngiad fel cymorth mewn nwyddau yn y tabl incwm. Er enghraifft, os yw llogi neuadd berfformio fel arfer yn costio £1,000, ond mae'n cael ei roi am £800, yna £800 fyddai'r gwariant ar gyfer yr eitem yma, gyda chymorth mewn nwyddau yn werth £200, ac yn cael ei nodi'n glir fel disgownt.

I sefydliadau, uchafswm o 10% o gyfanswm cost gymwys y prosiect yw'r cyfyngiad am gymorth mewn nwyddau.

I unigolion, nid oes uchafswm ar gyfer cefnogaeth mewn nwyddau.

Bydd cyfanswm eich cefnogaeth mewn nwyddau yn ymddangos yn awtomatig yn y tab Gwariant. Nid oes angen ichi roi unrhyw wybodaeth am gefnogaeth mewn nwyddau yn y tab Gwariant.

## Tab 4 Costau hygyrchedd personol

**Costau hygyrchedd ychwanegol** – mae hyn i dalu am gostau hygyrchedd sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect. Er enghraifft, gallai hyn fod yn gostau cyfieithydd Arwyddeg i actor yn y cynhyrchiad, gweithiwr cymorth i gyfarwyddwr llwyfan, neu i dalu am feddalwedd arbenigol i artist sy'n cyflwyno gweithdy. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Byddem yn disgwyl gweld dadansoddiad manwl o'r costau ac esboniad i bwy y maent, er enghraifft: Gweithiwr cymorth i'r cyfarwyddwr llwyfan £200 y dydd x 3 diwrnod = £600

Os cawsoch gymorth hygyrchedd i'ch helpu i gyflwyno eich cais am grant, efallai y byddwch am gynnwys cost am gymorth wrth gyflwyno eich adroddiad diweddu.

Er enghraifft, cymorth wrth gyflwyno adroddiad diweddu: £200 i Weithiwr Cymorth am 1 diwrnod = £200

Mae'r costau yn y tab Costau hygyrchedd personol yn ychwanegol at swm eich grant. Er enghraifft, os uchafswm y gallwch ei geisio yw £10,000, gallwch wneud cais am £10,000 ac unrhyw gostau hygyrchedd personol ychwanegol ar ben hynny.

Peidiwch â chynnwys costau hygyrchedd i gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr yma - dylent fod yn y tab Gwariant dan y pennawd 'Costau gwneud eich gweithgarwch yn fwy hygyrch i'ch cynulleidfaoedd a'ch cyfranogwyr'.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r costau'n gostau hygyrchedd personol yn ddilys, cysylltwch â'n swyddogion Grantiau a Gwybodaeth i gael cyngor, drwy e-bostio grantiau@celf.cymru

## Rhestr wirio cyllideb

- A ydych wedi darllen drwy'r holl nodiadau cymorth?
- A ydych wedi darllen canllawiau'r cynllun i weld a oes unrhyw feini prawf penodol sy'n berthnasol?
- A yw'r gyllideb ar y templed Excel?
- A yw swm y grant a geisiwch yn y gyllideb yn cyfateb i'r swm yn eich cais?
- A yw'r gyllideb yn gytbwys?
- Ai 5% yw uchafswm eich arian wrth gefn?
- Os yn berthnasol, a yw o leiaf 10% o incwm eich prosiect o ffynonellau nad ydynt yn Gyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri?
- Os ydych wedi cynnwys unrhyw gefnogaeth mewn nwyddau fel incwm, gwnewch yn siŵr nad ydych wedi'i rhoi yn y tab Gwariant, gan fod hyn yn cael ei wneud yn awtomatig ichi

# Cwestiynau Cyffredin

### A oes angen i mi uwchlwytho cyllideb?

Bydd y rhan fwyaf o'n cynlluniau ariannu yn gofyn ichi uwchlwytho cyllideb sydd ar ein templed. Gwiriwch y canllawiau ar gyfer y cynllun rydych yn gwneud cais iddo. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau, mae darparu cyllideb ar ein templed yn rhan hanfodol o'ch cais ac ni fydd eich cais yn gallu symud ymlaen heb un.

Os bydd eich grant yn llwyddiannus, bydd y ffigyrau hyn yn rhan o'n hasesiad ar ôl ichi orffen y prosiect.

### A oes templed ar gyfer y gyllideb?

Bydd canllawiau'r cynllun yn nodi a oes rhaid ichi ddefnyddio ein templed cyllideb prosiect. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu cyllidebau gwahanol prosiectau mewn ffordd gyson. Gallwch islwytho'r templed o'n gwefan.

### Pa fformatau ffeil sy'n cael eu derbyn?

Rhaid i'r gyllideb gael ei huwchlwytho fel dogfen Excel. Ni allwn dderbyn eich cyllideb mewn fformat arall, megis Pages, Numbers neu fel pdf oni nodir yn wahanol yng nghanllawiau'r cynllun rydych yn gwneud cais iddo.

### Ble rydw i'n uwchlwytho'r gyllideb?

Rydych yn uwchlwytho'r gyllideb yn adran atodiadau eich cais cyn ichi gyflwyno eich cais.

### A ddylwn i gynnwys TAW?

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, ni ddylai eich ffigyrau gwariant gynnwys TAW y gallwch ei hawlio'n ôl (sef TAW adenilladwy).

Os nad ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dylai eich costau gynnwys TAW. Dylid cynnwys unrhyw TAW yr ydych yn disgwyl ei thalu ond na allwch ei hawlio'n ôl (sef TAW anadenilladwy) fel categori gwariant ar wahân. Dylech hefyd esbonio sut y gwnaethoch gyrraedd y ffigwr.